# PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU



Mae tri Pharc Cenedlaethol yn bodoli yng Nghymru, sy'n gorchuddio arwynebedd o 4122 cilomedr sgwâr.  Cynrychiola hyn tua 20% o arwynebedd tir Cymru.  Dynodwyd **Eryri** yn 1951, **Arfordir Sir Benfro** yn 1952 a **Bannau Brycheiniog** yn 1957.

Crëwyd Parciau Cenedlaethol i amddiffyn y tirweddau mwyaf prydferth a mawreddog yn y Deyrnas Unedig. Mae'r  ffaith eu bod yn barciau yn cydnabod pa mor bwysig ydynt ac yn eu hamddiffyn.

Mae pob parc yn wahanol o ran tirwedd, hanes a diwylliant.

Caiff Parciau Cenedlaethol eu rheoli gan Awdurdod Parc Cenedlaethol, sy'n cynnwys aelodau sy'n cael eu penodi gan awdurdodau lleol (dau-draean) ac aelodau sy'n cael eu penodi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (traean).

Mae arian y parciau yn dod o grant gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ac o grantiau arbennig, e.e. cronfeydd Ewropeaidd.

Mae'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn cyflogi cyfanswm o 328 o staff ar sail llawn amser. Yn 2006/07, £23.23m oedd gwariant blynyddol gros y tri Pharc.